sir ddinbych Cyngor
denbighshire County Council

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Cabinet |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 25 Mawrth 2025 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol** | Y Cynghorydd Jason McLellan, Arweinydd y Cyngor |
| **Awdur yr adroddiad** | Gary Williams, Cyfarwyddwr Corfforaethol: Llywodraethu a Busnes |
| **Testun** | Trosglwyddo Bargen Dwf Gogledd Cymru i Gydbwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru. |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â'r cynnig i drosglwyddo gweithrediad Bargen Dwf Gogledd Cymru i Gydbwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru, yn unol â'r penderfyniad mewn egwyddor a wnaeth y Cabinet blaenorol ym mis Rhagfyr 2021.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Wedi i bwyllgorau gweithredu Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Sir y Fflint, Cyngor Gwynedd, Cyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (y "Cynghorau Cyfansoddol") benderfynu mewn egwyddor i drosglwyddo gweithrediad Bargen Dwf Gogledd Cymru i Gydbwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru, mae'r adroddiad yn argymell penderfyniadau ar gyfer gweithredu a hwyluso'r trosglwyddiad arfaethedig ar 31 Mawrth 2025 neu cyn hynny.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. This document is available in English.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Cytuno i sefydlu Cytundeb Partneriaeth a Chyllido (Atodiad 2) a throsglwyddo swyddogaeth y corff Atebol, cyfrifoldeb dros gyflawni Bargen Dwf Gogledd Cymru a'r trefniadau cyllido ar gyfer y Fargen Dwf i Gydbwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru ar 31 Mawrth 2025 neu cyn hynny.

3.2. Cytuno i amnewid a neilltuo, fel y bo'r gofyn, i drosglwyddo gweithrediad Bargen Dwf Gogledd Cymru a'r hawliau a rhwymedigaethau ymhob cytundeb cyllido sydd yng ngofal Cyngor Gwynedd fel Corff Atebol ar ran Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ("y Bwrdd Uchelgais") i Gydbwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru ("y Cydbwyllgor Corfforedig");

3.3. Cytuno i drosglwyddo ac amnewid a/neu neilltuo'r holl fuddiannau yn y portffolio o brosiectau a ariennir gan Fargen Dwf Gogledd Cymru ynghyd ag unrhyw gytundebau, taliadau a phrydlesi ategol gan Gyngor Gwynedd fel Corff Atebol ar ran y Bwrdd Uchelgais i'r Cydbwyllgor Corfforedig.

3.4. Cytuno i drosglwyddo a/neu neilltuo'r holl falansau ariannol, arian yn ddyledus ac asedau yng ngofal Cyngor Gwynedd ar ran y Bwrdd Uchelgais i'r Cydbwyllgor Corfforedig.

3.5. Dirprwyo awdurdod i'r Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Monitro a'r Swyddog Adran 151, gymeradwyo a gweithredu'r cytundebau, y gweithredoedd a'r holl ddogfennau cyfreithiol eraill ar eu ffurf derfynol, fel y bo'n angenrheidiol i weithredu'r trosglwyddiadau y cyfeirir atynt ym mharagraffau (1), (2) a (3) uchod.

3.6. Wedi cwblhau'r Cytundeb Partneriaeth a Chyllido, cytuno i derfynu'r cytundeb GA2 a dirwyn Cydbwyllgor Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i ben.

3.7. Cytuno i drosglwyddo atebolrwydd i Gydbwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru a'i fod yn derbyn cyfrifoldeb am wneud penderfyniadau ar gyfer gweithredu Bargen Dwf Gogledd Cymru yn amodol ar amnewid y Fargen Dwf a chymeradwyo Rheolau Sefydlog ychwanegol sy'n cynnwys telerau allweddol y Cytundeb Cydweithio ("GA2") rhwng y chwech o Gynghorau Cyfansoddol a'r pedwar o bartïon Addysg.

3.8. Cytuno i roi'r penderfyniadau uchod ar waith yn ddiymdroi heb eu galw i mewn, yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad y Cyngor, fel y gellir trosglwyddo ar 31 Mawrth 2025 neu cyn hynny.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1. Ar 17 Rhagfyr 2020, sefydlodd y Cynghorau Cyfansoddol ynghyd â Phrifysgolion Bangor a Wrecsam, Coleg Cambria a Grŵp Llandrillo Menai Gytundeb Cydweithio ("GA2") a greodd Gydbwyllgor, sef Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, i fod yn gyfrifol am oruchwylio a chydlynu'r gwaith o gyflawni rhwymedigaethau'r Cynghorau ar gyfer Bargen Dwf Gogledd Cymru a chyflawni Gweledigaeth Twf Gogledd Cymru. Fel rhan o'r trefniadau hynny, penodwyd Cyngor Gwynedd i fod yn Awdurdod Cynnal ar gyfer y bartneriaeth ac ef yw'r Corff Atebol.

4.2. Sefydlwyd Cydbwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru drwy reoliadau a wnaed dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 gyda'r nod o gryfhau trefniadau cydweithio rhanbarthol rhwng awdurdodau lleol. Mae'r Cydbwyllgor Corfforedig yn gorff cyhoeddus â grymoedd a dyletswyddau go debyg i awdurdodau lleol. Un o'i swyddogaethau statudol yw gwneud unrhyw beth y mae'n barnu sy'n debygol o hyrwyddo neu wella lles economaidd yr ardal. Mae'r Cydbwyllgor Corfforedig yn gorff corfforedig yn ei rinwedd ei hun, sy'n gallu cyflogi staff yn uniongyrchol, meddu ar asedau a rheoli cyllid, heb fod angen gweithredu drwy Gorff Atebol.

4.3. Ymysg aelodau'r Cydbwyllgor mae Arweinwyr Gweithredol y Cynghorau Cyfansoddol a Chadeirydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Sefydlwyd y Cydbwyllgor Corfforedig yn ffurfiol ym mis Ebrill 2021 a daeth ei swyddogaethau i rym ym mis Mehefin 2022.

4.4. Penderfynodd y Cynghorau Cyfansoddol mewn egwyddor yn 21/22 i drosglwyddo'r Fargen Dwf i'r Cydbwyllgor. Gwnaeth Cabinet Sir Ddinbych y penderfyniad hwnnw ar 14 Rhagfyr 2021. Deilliai ysgogiad strategol cyffredinol i drosglwyddo o'r cysylltiad rhwng aelodaeth Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ac aelodaeth y Cydbwyllgor Corfforedig, y dymuniad i osgoi gormod o gyrff rhanbarthol gyda swyddogaethau tebyg, ac amryw fanteision ac arbedion effeithiolrwydd oherwydd bod y Cydbwyllgor Corfforedig yn endid corfforaethol ei hun.

4.5. Gwnaed penderfyniad mewn egwyddor yn wreiddiol gan fod y ddeddfwriaeth ynghylch Cydbwyllgorau Corfforedig yn dal i ddatblygu. Daeth y rhai olaf o'r Rheoliadau cychwynnol i rym ar 1 Ebrill 2023.

4.6. Er mwyn gallu trosglwyddo, mae angen i bwyllgor gweithredol pob un o'r Cynghorau Cyfansoddol wneud nifer o benderfyniadau. Y rhain yw, yn gryno:

- cytuno i sefydlu cytundeb partneriaeth a chyllido newydd, terfynu GA2 a dirwyn y Bwrdd Uchelgais i ben
- cydsynio i drosglwyddo'r trefniadau cyllido presennol ar gyfer y Fargen Dwf o'r Bwrdd Uchelgais i'r Cydbwyllgor Corfforedig
- cydsynio i drosglwyddo rhwymedigaethau a chyfrifoldebau ariannol o Gyngor Gwynedd fel Corff Atebol i'r Cydbwyllgor Corfforedig, gan gynnwys yr holl asedau a dyledion yn ogystal â'r portffolio o brosiectau
- dirprwyo awdurdod i'r swyddogion priodol gwblhau'r dogfennau cyfreithiol angenrheidiol.

4.7. Mae Cyngor Gwynedd, sef yr awdurdod cynnal a chorff atebol, wedi llunio adroddiad drafft manylach i bwyllgor gweithredol pob Cyngor Cyfansoddol i'w ystyried, sydd ynghlwm wrth yr adroddiad hwn yn Atodiad 1.

4.8. Mae'r Cytundeb Partneriaeth a Chyllido y bwriedir i'r partïon ei lofnodi ynghlwm yn Atodiad 2.

4.9. Wedi trosglwyddo, bydd y Cydbwyllgor Corfforedig yn ffurfio Is-bwyllgor Lles Economaidd a fydd yn rhan o drefn lywodraethu'r Cydbwyllgor fel y nodir yn y diagram o'r strwythur yn Atodiad 1. Bydd aelodau'r Is-bwyllgor yn cynnwys y chwech o arweinwyr y Cynghorau Cyfansoddol a bydd pob un yn cael pleidleisio. Bydd yno hefyd aelodau cyfetholedig heb bleidlais o'r Colegau a Phrifysgolion, y Bwrdd Cyflawni Busnes, y Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol a Pharc Cenedlaethol Eryri.

4.10. Dan y drefn bresennol, pwyllgorau craffu'r Cynghorau Cyfansoddol sy'n craffu ar waith y Bwrdd Uchelgais Economaidd. Fe gofia'r Aelodau bod y Cyngor wedi cytuno ar 28 Ionawr 2025 i sefydlu Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu Cydbwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru a chadw pwerau pwyllgorau craffu lleol i drafod materion o bwys lleol.

4.11. Er mwyn gallu trosglwyddo ar 31 Mawrth 2025 neu cyn hynny, bydd yn rhaid gweithredu'r penderfyniadau a wneir ar sail yr adroddiad hwn yn ddiymdroi, heb eu galw i mewn, yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad y Cyngor.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022 i 2027: y Sir Ddinbych a Garem?

5.1. Mae gweithredu'r Fargen Dwf yn cyfrannu at y thema 'Sir Ddinbych Ffyniannus' yn y Cynllun Corfforaethol.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Yn unol â'r trefniadau dan GA2, mae pob un o'r Cynghorau Cyfansoddol a'r partneriaid addysg yn talu cyfraniad at gost y staff sy'n cefnogi gwaith y Bwrdd Uchelgais Economaidd. Telir y symiau hynny i Gyngor Gwynedd, yr awdurdod cynnal. Dan y Cytundeb Partneriaeth a Chyllido, byddai'r arian a delir i Gyngor Gwynedd ar hyn o bryd yn mynd i'r Cydbwyllgor Corfforedig yn lle hynny. Mae pob un o'r Cynghorau Cyfansoddol yn talu cyfraniad blynyddol o £57,880 at y Fargen Dwf a thâl atodol o £40,000. Byddai'n rhaid cael cydsyniad ysgrifenedig yr holl bartïon i gynyddu'r cyfraniadau hynny.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Nid oes angen Asesiad Effaith Integredig ar gyfer yr adroddiad hwn gan fod trosglwyddo swyddogaethau o'r Bwrdd Uchelgais Economaidd ac amnewid a neilltuo endidau a hawliau cyfreithiol i'r Cydbwyllgor Corfforedig yn fater cytundebol a chyfansoddiadol. Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r trefniadau llywodraethu sy'n ofynnol er mwyn trosglwyddo'r Fargen Dwf a'r holl faterion sy'n hwyluso hynny i'r Cydbwyllgor Corfforedig.

## 8. Pa ymgyngoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Penderfynodd y Cabinet mewn egwyddor ym mis Rhagfyr 2021 i gymeradwyo'r trosglwyddiad. Cynhaliwyd Gweithdy i'r Cyngor ar 11 Mawrth 2025.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Nodir trefniadau cyllido Bargen Dwf Gogledd Cymru yn yr adroddiad. Ni fydd y trefniadau cyllido'n newid, ac eithrio bod taliadau'n mynd i Gydbwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru ar ôl trosglwyddo'r cyfrifoldeb am weithredu'r Fargen Dwf o'r Bwrdd Uchelgais Economaidd.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Mae a wnelo hyn yn ei hanfod â throsglwyddo’r cyfrifoldeb am weithredu’r Fargen Dwf o’r Bwrdd Uchelgais Economaidd i’r Cydbwyllgor Corfforedig. Nid oes unrhyw risgiau ychwanegol i weithredu’r Fargen Dwf. Yr un aelodau fydd ar y Cydbwyllgor Corfforedig â’r Bwrdd Uchelgais Economaidd. Bydd y staff sy’n cefnogi’r Bwrdd Uchelgais yn trosglwyddo i’r Cydbwyllgor Corfforedig. Amnewidir y cytundebau cyfreithiol â’r Llywodraeth ynghylch y Fargen Dwf ar yr un telerau a bydd cyfraniadau ariannol y Cyngor yn aros yr un fath.

10.2. Mae ffurfio Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu, a bod y Cydbwyllgor Corfforedig yn sefydlu Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ei hun, yn creu trefn gadarn ar gyfer dal y Cydbwyllgor Corfforedig i gyfrif.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Adran 111 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972